O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2165 (Cy. 232)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Penblewin, Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*31 Awst 2011*
Yn dod i rym	*12 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Penblewin, Arberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 yn Sir Benfro sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4313 i Faenclochog hyd at bwynt 2635 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.